Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu (dirybudd)

## Ysbyty Llys Llanarth: Wardiau: Awen, Deri, Howell, Iddon, Osbern, Teilo, Treowen a Woodlands

Dyddiad arolygu: 1 – 5 Awst 2016

Dyddiad cyhoeddi: 7 Tachwedd 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-7935-7
© Hawlfraint y Goron 2016

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 4

2. Methodoleg ........ 5

3. Cyd-destun a disgrifiad o’r gwasanaeth ........ 7

4. Crynodeb ........ 9

5. Canfyddiadau ........ 10

   Safonau Craidd ........ 10

   Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl ........ 25

   Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl ........ 26

6. Y Camau Nesaf ........ 27

   Atodiad A ........ 28

## 1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Fonitro'r cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Pwyslais arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

## 2. Methodoleg

Mae’r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflwyno'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu’n cynnwys:

- Cyfweliadau a thrafodaethau cynhwysfawr â chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr, a staff nyrsio
- Cyfweliadau ag uwch staff, gan gynnwys aelodau’r bwrdd lle bo’n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau’r tîm amlddisgyblaeth
- Craffu ar bolisïau a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi’r amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff, gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy’n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried sut y gweithredir Mesur Cymru (2010)[1]
- Archwilio cofnodion ataliaeth, cwynion, pryderon, ac atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, gweinyddu, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd y bwyd

[1] Deddfwriaeth sylfaenol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw’r Mesur. Ymhlith materion eraill, mae’n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal a chydgysylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

- Gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygydd â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae’r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

## 3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd AGIC ymweliad iechyd meddwl ac anabledd dysgu dirybudd ag Ysbyty Llys Llanarth, gyda'r nos ar 1 Awst 2016 a thrwy'r dydd ar 2, 3 a 4 Awst 2016.

Cofrestrwyd Ysbyty Llys Llanarth yn gyntaf ym mis Rhagfyr 1992, ac mae wedi'i gofrestru ar hyn o bryd ar gyfer 114 o gleifion ac un gwely brys ar draws saith ward ac un byngalo adsefydlu. Mae pob un o'r saith ward yn lletya cleifion ag anghenion penodol mewn amgylchedd diogel:

- Ward Awen – gwasanaeth diogelwch canolig gyda lle i uchafswm o 16 o oedolion benywaidd rhwng 18 a 65 oed sydd â diagnosis o salwch meddyliol neu sydd ag anhwylder personoliaeth y mae modd ei drin, neu gyfuniad o'r ddau beth hyn.

- Ward Deri – gwasanaeth diogelwch isel i asesu uchafswm o 11 o oedolion gwrywaidd dros 18 oed.

- Ward Howell – gwasanaeth diogelwch canolig i ddarparu asesiad, triniaeth ac adsefydlu tymor byr ar gyfer uchafswm o 17 o oedolion gwrywaidd dros 18 oed sy'n dioddef o anhwylder meddyliol.

- Ward Iddon – gwasanaeth diogelwch canolig i ddarparu asesiad ac adsefydlu tymor byr ar gyfer uchafswm o 17 o oedolion gwrywaidd dros 18 oed sy'n dioddef o anhwylder meddyliol.

- Ward Osbern – gwasanaeth diogelwch isel i ddarparu asesiad, triniaeth ac adsefydlu ar gyfer uchafswm o 11 o oedolion gwrywaidd dros 18 oed sy'n dioddef o anhwylder meddyliol.

- Ward Teilo – gwasanaeth diogelwch isel i adsefydlu uchafswm o 20 o oedolion gwrywaidd dros 18 oed sydd angen adsefydliad oherwydd anhwylder meddyliol.

- Ward Treowen – gwasanaeth diogelwch isel i adsefydlu uchafswm o 19 o oedolion gwrywaidd dros 18 oed sydd angen adsefydliad oherwydd anhwylder meddyliol. Mae hyn yn cynnwys un gwely y mae angen iddo fod ar gael i gleifion o Ysbyty Annibynnol Aderyn (ger Pont-y-pŵl), pe bai angen iddynt gael gofal dwys a thriniaeth brys yn ystod eu triniaeth adsefydlu oherwydd bod eu hanhwylder meddyliol wedi dychwelyd.

- Byngalo Woodlands – gwasanaeth agored i adsefydlu uchafswm o bedwar oedolyn benywaidd dros 18 oed sydd angen cyfnod o adsefydlu agored fel llwybr gofal y cytunwyd arno.

Yn ystod yr arolygiad pum diwrnod, gwnaethom adolygu pob ward, gan adolygu cofnodion cleifion, cyfweld â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion.  Roedd y tîm adolygu yn cynnwys un adolygydd Deddf Iechyd Meddwl, un adolygydd cymheiriaid, dau adolygydd lleyg a dau aelod o staff AGIC, gan gynnwys un aelod o staff AGIC yn cysgodi'r ymweliad.

## 4. Crynodeb

Cynhaliwyd ein harolygiad o Ysbyty Llys Llanarth ym mhob un o'r saith o wardiau a byngalo Woodlands. Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y system cofnodion cleifion electronig PathNav yn gynhwysfawr a hygyrch, yn canolbwyntio ar y claf ac ar goliau.
- Roedd tystiolaeth o dimau amlddisgyblaeth sefydledig ar y wardiau sy'n darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf.
- Roedd y gwaith o asesu, monitro a chofnodi iechyd corfforol yn gynhwysfawr.
- Roedd dogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Mesur Iechyd Meddwl yn gynhwysfawr ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.
- Roedd ystod eang o weithgareddau ar gael i gleifion yn y wardiau ac o amgylch safle'r ysbyty.
- Roedd gan bob un o'r saith ward ei gerbyd dynodedig ei hun er mwyn i gleifion allu mynd i'r gymuned.
- Roedd nifer uchel o staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol.

Mae angen i'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal a chadw seilwaith trydanol yn yr ysbyty. Roedd angen sicrwydd ar unwaith ynglŷn â hyn gan y darparwr cofrestredig.
- Datblygu rheolaeth risg unigoledig i reoli risgiau cleifion a dileu arferion defodol ar rai wardiau.
- Adolygiad ac eglurder ynglŷn â dulliau rheoli ymddygiad cleifion gan ddileu arferion y canfyddir iddynt fod yn rhai cosbol.
- Adolygiad o'r ddarpariaeth arlwyo i sicrhau bod digon o ddewis i gleifion, yn arbennig ar gyfer opsiynau prydau nos a chinio iach.
- Sicrhau bod gwybodaeth gyfredol am gleifion ac ymwelwyr yn cael ei chadw a'i harddangos yn gyson ledled safle'r ysbyty.

## 5. Canfyddiadau

### *Safonau Craidd*

**Amgylchedd y ward**

Roedd pob ward yn Llys Llanarth ar gyfer rhyw unigol ac roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun. Gallai cleifion bersonoleiddio eu hystafelloedd gwely ac roedd digon o le ynddynt i gleifion unigol gadw eu heiddo. Gallai cleifion gloi eu hystafelloedd gwely ond roedd allweddi'r staff yn gallu eu hagor pe bai angen.

Roedd wardiau Howell (17 gwely diogelwch canolig ar gyfer dynion), Iddon (17 gwely diogelwch canolig ar gyfer dynion), Deri (11 gwely diogelwch isel ar gyfer dynion) ac Osbern (11 gwely diogelwch isel ar gyfer dynion) yn rhan o un bloc o wardiau. Roedd gan yr holl wardiau hyn ardaloedd i gleifion dros ddau lawr. Roedd holl ystafelloedd gwely'r cleifion i fyny'r grisiau ynghyd â'r ystafelloedd ymolchi, cawodydd a thoiledau. Nid oedd ystafelloedd gwely cleifion ar y pedair ward hyn yn rhai 'en-suite'. Roedd yr ardaloedd i lawr y grisiau oddi ar y wardiau hyn yn cynnwys prif lolfeydd y cleifion, ystafelloedd bwyta, ac ystafelloedd llai ar gyfer cyfarfodydd cleifion, therapïau ac ymwelwyr ynghyd â thoiledau ychwanegol.

Roedd wardiau Teilo (20 gwely diogelwch isel ar gyfer dynion), Treowen (18 gwely diogelwch isel ar gyfer dynion) ac Awen (16 gwely diogelwch canolig ar gyfer merched) yn wardiau annibynnol. Roedd ardaloedd y cleifion ar wardiau Awen, Teilo a Threowen ar lawr daear y tair ward. Roedd ystafelloedd gwely cleifion ar y wardiau hyn yn rhai en-suite, gydag ystafell ymolchi a thoiledau ychwanegol. Roedd y ward hefyd yn cynnwys prif lolfeydd y cleifion, ystafelloedd bwyta, ac ystafelloedd llai ar gyfer cyfarfodydd cleifion, therapïau ac ymwelwyr.

Roedd byngalo Woodlands (pedwar gwely adsefydlu i fenywod) yn darparu llety cam-i-lawr i gleifion o Ward Awen. Roedd ystafelloedd gwely unigol (dim en-suite) yn y byngalo ac roedd ystafelloedd ymolchi, cawodydd a thoiledau ar gael yn y byngalo. Roedd lolfa yn y byngalo hefyd ac ardal cegin/fwyta agored ar gyfer y cleifion. Roedd mynediad at ardd breifat o'r byngalo.

Gwelsom fod y lolfeydd ar lawr daear wardiau Deri ac Osbern yn fach ac yn teimlo'n glos, ac roedd mwy o le ar lawr daear y wardiau eraill a mwy o ystafelloedd ychwanegol i gleifion.

Ar y cyfan, gwelsom fod yr amgylchedd, dodrefn a gosodiadau yn Ysbyty Llys Llanarth yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn addas ar gyfer y grwpiau cleifion. Fodd bynnag, yn dilyn Adroddiad o Gyflwr Gosodiadau Trydanol a

gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2016 gan gontractwr allanol, roedd yn peri pryder difrifol bod nifer o feysydd yn yr adroddiad yn cael eu cofnodi fel "anfoddhaol". Gwnaethom nodi nad oedd camau gweithredu i unioni'r diffygion a nodwyd yn yr adroddiad hwn o gyflwr gosodiadau trydanol wedi cael eu cyflawni o hyd.

Oherwydd natur y pryder hwn, gwnaethom dynnu sylw'r darparwr cofrestredig ato fel mater o frys yn ystod yr arolygiad. Yn dilyn yr arolygiad, gwnaethom gyflwyno llythyr Sicrwydd ar Unwaith i'r darparwr cofrestredig yn nodi bod angen rhoi sylw ar unwaith i'r materion hyn oherwydd y risg i ddiogelwch cleifion, staff ac ymwelwyr yn Ysbyty Llys Llanarth. Mae'r darparwr cofrestredig wedi ymateb gan nodi bod yr Adran Ystadau wedi rhoi cynllun ar waith i gyflawni'r camau gweithredu gofynnol. Oherwydd natur y gwaith, bydd angen diffodd y prif gyflenwad trydan a bydd hyn yn digwydd dros benwythnosau er mwyn amharu ar weithrediadau cyn lleied â phosibl. Rydym wedi cael ein hysbysu mai'r dyddiad cwblhau ar gyfer y gwaith hwn fydd 30 Medi 2016.

Roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn Llys Llanarth. Fodd bynnag, wrth adolygu dogfennau ar gyfer profion diogelwch tân, nid oeddent yn dangos pa wardiau ac aelodau o staff oedd yn rhan o'r ymarfer. Mae'n hanfodol bod yr holl staff yn cael eu cynnwys yn gyfredol mewn ymarferion tân er diogelwch cleifion, staff ac ymwelwyr. Yn dilyn ein harolygiad, ceisiodd y darparwr cofrestredig esboniad gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, a gynghorodd fod canllawiau cenedlaethol (asesiad risg diogelwch tân Cymunedau a Llywodraeth Leol ar gyfer adeiladau gofal iechyd) yn nodi y dylid cynnal ymarferion tân o leiaf bob blwyddyn neu fel y pennir gan asesiad risg tân y darparwr. Fodd bynnag, mae'n arfer gorau i bob aelod o staff gymryd rhan mewn dau ymarfer tân bob blwyddyn yn arbennig mewn adeiladau gofal iechyd.

**Cam gofynnol**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cwblhau i fodloni'r safonau gofynnol a chyngor gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.**

Gwnaethom sylwi hefyd ar ward Howell bod nenfwd yr ardal gymunedol yn gollwng uwchben set deledu, ac er gwaethaf y risg i ddiogelwch cleifion a staff ar y ward, roedd y teledu'n dal i gael ei ddefnyddio. Nid oedd y broblem wedi cael sylw a dim ond tywel oedd yn cael ei ddefnyddio i geisio rhwystro'r dŵr rhag cyrraedd y teledu.

**Camau gofynnol**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob cais cynnal a chadw a all effeithio ar ddiogelwch yn cael sylw ar unwaith.**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau bod y nenfwd sy'n gollwng mewn ardal gymunedol o ward Howell wedi cael ei drwsio.**

Roeddem yn falch o nodi bod y darparwr cofrestredig wedi buddsoddi mewn gwaith i wella amgylchedd y wardiau. Roedd hyn yn amlwg iawn ar ward Teilo lle, yn ogystal â'r llawr newydd yn y lolfa a gafodd ei osod cyn ein harolygiad yn 2015, roedd y ward wedi cael ei haddurno'n lliwgar ac roedd lluniau deniadol ar y waliau. Roedd hyn yn cynnwys darluniau mawr o raeadr ar y waliau'n arwain at y nenfydau uchel yn ardal y lolfa.

Yn ystod ein harolygiad diwethaf, nodwyd bod llawer o faw a llwch wedi cronni y tu ôl i'r gard Perspex ar y ffenestri ac roeddem yn falch o nodi na welsom y broblem hon yn ystod yr arolygiad hwn.

Er gwaethaf y buddsoddiad gan y darparwr mewn dodrefn ar gyfer ardaloedd cymunedol, gwelsom fod rhywfaint o'r dodrefn wedi treulio a bod angen sylw arnynt oherwydd eu bod yn cael eu defnyddio'n barhaol gan y grŵp cleifion, neu fod angen dodrefn newydd. Er nad oedd difrod mawr i'r dodrefn, dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw'r dodrefn yn dirywio ymhellach gan y byddant yn cynyddu'r risg posibl i ddiogelwch cleifion.

**Cam gofynnol**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei wirio'n rheolaidd a sicrhau bod dodrefn sydd wedi eu difrodi'n cael sylw ar unwaith.**

Gwnaethom sylwi nad oedd pob peiriant darparu gel glanhau dwylo wrth y mynedfeydd i'r wardiau'n cynnwys gel glanhau; roedd rhai dal yn wag trwy gydol ein harolygiad. Mae angen i gel glanhau dwylo fod ar gael trwy'r amser i atal heintiau rhag lledaenu a allant gael effaith ar iechyd cleifion, staff ac ymwelwyr.

**Cam gofynnol**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gel glanhau dwylo ar gael trwy'r amser yn y peiriannau darparu penodedig.**

Roedd gan bob ward ei gardd ddiogel ei hun y gallai cleifion fynd iddi. Mae Ysbyty Llys Llanarth yn cynnal cystadleuaeth rhwng pob ward am yr ardd orau; mae'r cleifion ac aelodau staff yn gyfrifol am eu gerddi eu hunain. Nodwyd bod rhai o'r gerddi'n ddeniadol iawn ac wedi eu cynnal a'u cadw'n dda ac roedd y rhain yn rhoi man i'r cleifion ei fwynhau yn yr awyr agored.

Roedd cleifion hefyd yn gallu mynd i fannau yn yr awyr agored i ysmygu. Ar rai wardiau, roedd amseroedd ysmygu'n cael eu cyfyngu i gyfnodau penodol

yng ngerddi'r ward neu pan oedd cleifion yn cael bod yn absennol o'r ward gyda chaniatâd ar eu pennau eu hunain.

Gwelsom fod gwybodaeth i gleifion a pherthnasau trwy adeiladau'r ysbyty. Fodd bynnag, roedd diffyg cysondeb o ran yr hyn a oedd yn cael ei arddangos ar y wardiau a sut roedd yn cael ei arddangos, gan gynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol statudol. Roedd hyn yn golygu nad oedd cleifion ar rai wardiau'n cael yr holl wybodaeth roedd cleifion yn ei chael ar wardiau eraill. Roedd rhywfaint o wybodaeth yn hen hefyd ac yn cynnwys enwau anghywir rheolwyr wardiau; roedd hen wybodaeth i'w gweld ar y wardiau ac mewn dogfennau i gleifion a pherthnasau a oedd yn nerbynfa'r ysbyty.

**Cam gofynnol**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod proses ar waith i sicrhau bod gwybodaeth gyfredol i gleifion ac ymwelwyr yn cael ei chynnal a'i harddangos yn gyson ar draws safle'r ysbyty.**

Roedd cleifion yn yr ysbyty naill ai'n gallu cael cyfrif banc yn yr ysbyty lle roedd ganddynt fynediad at eu harian yn ystod oriau swyddfa neu'n gallu cael cyfrif banc yn y gymuned. Roedd cyfrif banc yn y gymuned yn rhoi sgil bywyd i gleifion ac yn eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Fodd bynnag, lleisiodd nifer o aelodau o staff bryder nad oedd cleifion yn gallu mynd i'r gymuned weithiau, a oedd yn golygu nad oeddent yn gallu cael mynediad at eu harian. Gallai hyn fod am nifer o resymau, fel salwch, neu os nad oedd claf yn gallu mynd i'r gymuned oherwydd bod eu habsenoldeb trwy ganiatâd wedi cael ei atal dros dro oherwydd risgiau, neu os oedd y claf wedi defnyddio'i holl amser absenoldeb trwy ganiatâd. Awgrymwyd y gallai cael peiriant arian parod yn yr ysbyty liniaru'r problemau hyn. Gwnaethom argymell bod y darparwr cofrestredig yn ymchwilio'r opsiwn o osod peiriant arian parod yn Ysbyty Llys Llanarth.

## <u>Diogelwch</u>

Roedd gan holl staff y wardiau larymau personol, a phan oedd unrhyw ymwelydd yn mynd i mewn i ward, gofynnwyd iddo lofnodi'r llyfr ymwelwyr. Roedd gan bob ward nyrs ddiogelwch benodedig a oedd yn sicrhau bod larymau diogelwch yn cael eu dosbarthu i ymwelwyr yn ôl yr angen, a bod ymwelwyr yn llofnodi'r llyfr. Mae rhestr o eitemau gwaharddedig yn cael ei harddangos cyn mynediad i'r wardiau ac mae cypyrddau ar gael i storio unrhyw eitemau na ellir eu cymryd i'r ward, e.e. ffonau symudol, tanwyr, hylifau fflamadwy ac ati.

Fel rhan o strategaeth yr ysbyty ar gyfer rheoli ymddygiad corfforol amhriodol cleifion, roedd gan bob ward (ac eithrio byngalo Woodlands) ystafelloedd

gofal dwys, ac roedd dwy ar ward Awen. Defnyddio ystafell gofal dwys yw'r cam olaf wrth reoli ymddygiad claf, a gellid ei defnyddio ar gyfer ymwahanu claf.[2] Pan fyddai angen, byddai claf yn mynd i'r ystafell gofal dwys.

Roedd gan y darparwr cofrestredig bolisi ar waith ar gyfer defnyddio ystafelloedd gofal dwys ac ymwahanu, a phan oeddent yn cael eu defnyddio, gallai cleifion fod yno am gyfnod byr (e.e. ychydig funudau) neu am gyfnodau hwy o ddiwrnodau neu wythnosau. Roedd yn gadarnhaol gweld bod ystafelloedd gofal dwys wedi cael eu defnyddio llai dros y misoedd diweddar ac nad oeddent yn cael eu defnyddio mor rheolaidd ac a welsom yn ystod ein harolygiadau blaenorol.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom siarad â nifer o gleifion a oedd wedi defnyddio ystafell gofal dwys. Roedd un claf wedi bod mewn ystafell gofal dwys ac wedi cael y profiad o fod ar wahân i'r cleifion eraill yn anodd, heb ddim i'w wneud ond gwylio teledu. Roedd y claf yn anhapus nad oedd unrhyw weithgareddau ar gael ac nad oedd staff yn gallu mynd ag ef i'r ardd i ysmygu. Er bod angen cyfyngiadau ar gleifion sy'n derbyn gofal mewn ystafell gofal dwys, nid oedd fawr o ddogfennau'n dangos digon o dystiolaeth o'r holl gyfyngiadau ar waith ar gyfer y claf hwn. Dylai'r cyfyngiadau a osodir ar gleifion fod yn seiliedig ar risgiau unigol ac ni ddylid defnyddio dull cyffredinol ar gyfer pawb.

**Cam gofynnol**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr ystafelloedd gofal dwys yn cael eu defnyddio yn y modd lleiaf cyfyngol posibl ar draws yr ysbyty a bod cyfyngiadau'n seiliedig ar risgiau'r claf unigol.**

Dywedodd claf arall, ar ward wahanol, ei fod wedi gofyn i staff i gael mynd i'r ystafell gofal dwys er mwyn rheoli ei ymddygiad ei hun cyn iddo fynd yn waeth. Roedd y claf yn ymwybodol o nodweddion ei ymddygiad ac roedd yn deall pe bai'n mynd i'r ystafell gofal dwys oddi wrth bobl eraill na fyddai'n gallu difrodi eiddo neu anafu claf arall. Dywedodd y claf fod hwn wedi bod yn brofiad buddiol iddo a'i fod yn falch bod staff yn gallu ei helpu i reoli ei ymddygiad mewn ffordd nad oedd yn cyfyngu arno.

Wrth adolygu cofnodion digwyddiadau'r chwe mis blaenorol, gwnaethom nodi lle'r oedd y claf wedi cael ei atal ar y llawr bod 10 o'r 35 claf wedi eu cofnodi i fod yn gorwedd ar eu hwyneb. Dywedodd staff wrthym mai'r rheswm dros atal cleifion trwy eu gosod i orwedd ar eu hwynebau oedd er mwyn gweinyddu meddyginiaeth mewngyhyrol, fel arfer i'r pen-ôl, ac felly roedd staff o'r farn mai dyma'r ffordd fwyaf priodol i gyflawni hyn.

[2] Cadw claf o dan oruchwyliaeth mewn ystafell, a all fod o dan glo. Ei unig nod yw rheoli ymddygiad cynhyrfus iawn sy'n debygol o beri niwed i bobl eraill.

Nid oedd yn eglur wrth ddarllen dogfennau cleifion a oedd hyn yn cael ei gynllunio a'i ystyried ar sail claf a digwyddiad unigol neu a oedd hyn wedi dod yn rhywbeth arferol gan y staff. Mae canllawiau[3] y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn nodi mai fel cam olaf yn unig y dylid defnyddio ataliaeth drwy orwedd claf ar ei wyneb a dim ond am gyn lleied o amser â phosibl. Mae hyn oherwydd y risgiau i ddiogelwch y claf wrth gael ei atal yn gorwedd ar ei wyneb sydd wedi cael eu profi trwy ymchwil. Nid oedd dogfennau cleifion a adolygwyd gennym yn rhoi cyfarwyddyd na chanllawiau i staff ynglŷn â pha ddull y dylid ei ddefnyddio i atal cleifion, nac yn dangos tystiolaeth bod cleifion wedi bod yn rhan o ddatblygu cynlluniau ar gyfer rheoli ymddygiad. Er efallai nad yw claf yn barod i siarad cyn cael ei atal, dylid ceisio trafod yr ataliaeth gyda'r claf ar adeg addas yn dilyn y digwyddiad er mwyn ceisio cael barn y claf ac ystyried y farn hon os bydd sefyllfa'n codi yn y dyfodol.

**Camau gofynnol**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cynllun arfaethedig ar gyfer ymyriad corfforol yn cael ei nodi o fewn cynllun gofal y claf.**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn nodi eu trafodaethau, neu ymdrechion i drafod â chlaf, gan gynnwys barn y claf ar unrhyw ymyriadau corfforol yn y dyfodol.**

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom arsylwi ar glaf yn cael ei dderbyn i ward ac, er bod hyn wedi cael ei drefnu ymlaen llaw, gwelsom fod y gwaith trefnu'n wael. Er bod dogfen cyn-derbyn fanwl wedi cael ei chwblhau, nid oedd ar gael i staff y ward er mwyn iddynt ymgyfarwyddo â'r claf, ei risgiau, ei ymddygiad neu ei gynllun gofal. Nid oedd staff y ward yn eglur am wybodaeth sylfaenol a hanfodol megis enw'r claf ac o dan ba adran y Ddeddf Iechyd Meddwl roedd yn cael ei gadw. Mae diffyg gwybodaeth staff y ward am glaf sy'n cael ei dderbyn yn peri risg i ddiogelwch staff a chleifion ar y ward. Gwnaethom uwchgyfeirio hyn at y rheolwr cofrestredig ar adeg yr arolygiad i sicrhau bod staff y ward yn meddu ar y wybodaeth gywir am y claf sy'n cael ei dderbyn i'r ward.

**Camau gofynnol**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff y ward yn meddu ar y dogfennau gofynnol sydd ar gael er mwyn iddynt fod yn gyfarwydd â chleifion sy'n cael eu derbyn i'r ward.**

Roedd y claf yn fodlon siarad â ni am gael ei dderbyn i'r ward a dywedodd ei fod yn teimlo ei fod wedi derbyn croeso a bod y staff yn gyfeillgar. Er hynny, nododd y claf iddo gael chwiliad corfforol cyn dod i mewn i'r ward ym mynedfa

[3] https://www.nice.org.uk/guidance/NG10/chapter/1-recommendations paragraff 1.4.24

aerglo'r ward, yn hytrach nac mewn ystafell dderbyn a fyddai wedi rhoi preifatrwydd i'r claf. Dywedodd staff wrthym fod y chwiliad wedi cael ei gynnal mewn ystafell breifat ac nid yn y fynedfa aerglo; roedd hyn yn gwrthddweud yr hyn a ddywedodd y claf. Er ei bod yn anodd darganfod beth oedd wedi digwydd ar yr achlysur hwn, rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod chwiliadau cleifion i gyd yn digwydd mewn man preifat ac nid mewn mynedfa aerglo lle gallai staff, cleifion neu ymwelwyr gerdded i mewn yn ystod chwiliad gan effeithio ar breifatrwydd ac urddas cleifion.

**Cam gofynnol**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob chwiliad claf yn cael ei gynnal mewn man preifat.**

**<u>Y tîm amlddisgyblaeth</u>**

Gwnaeth yr holl staff y siaradom â nhw sylwadau cadarnhaol ynglŷn â dull y tîm amlddisgyblaeth o weithio. Dywedodd y staff fod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth yn digwydd yn rheolaidd, a chaiff pob disgyblaeth ei chynrychioli gan gynnwys seicoleg, therapi galwedigaethol, gweithwyr cymdeithasol, staff meddygol, a nyrsys.

Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth yn rhai cydweithredol lle y lleisir barn a safbwyntiau proffesiynol gan yr holl ddisgyblaethau, a lle mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu parchu gan ei gilydd. Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom arsylwi ar rownd ward a chyfarfodydd eraill y tîm amlddisgyblaeth. Roedd yn amlwg bod y cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar y claf a siaradodd aelodau o'r tîm amlddisgyblaeth am y cleifion mewn ffordd llawn parch a oedd yn ystyried eu dymuniadau, casbethau a risgiau mewn penderfyniadau cynllunio gofal.

Roedd gwasanaethau seicoleg ar gael i'r cleifion ledled yr ysbyty, ac roedd o leiaf un seicolegydd ar bob ward. Roedd rhwydwaith da rhwng seicolegwyr yn Llys Llanarth ac mae seicolegwyr y wardiau'n cyfarfod unwaith yr wythnos i gyfnewid syniadau a meddyliau am driniaethau ac arferion. Dywedodd yr adran seicoleg wrthym eu bod yn agored i gyflwyno a darparu gwahanol therapïau. Mae'r adran seicoleg yn cydweithio â'r staff nyrsio i ddarparu therapïau seicolegol i gleifion, ac maent yn helpu i reoli lefelau straen y staff drwy hyfforddiant gwydnwch a sesiynau arfer myfyriol.

Roedd cleifion newydd yn cael eu hasesu gan y gwasanaeth seicoleg o fewn eu tri mis cyntaf yn yr ysbyty, ac yna roedd ymyriadau'n dechrau ar gyfer y cleifion. Yn gyffredinol, roedd y cleifion yn derbyn un sesiwn un i un bob wythnos, ac roeddent yn mynychu sesiynau grŵp os oeddent yn briodol. Roedd sesiynau grŵp yn cynnwys ymwybyddiaeth o sylweddau ac o

gamddefnyddio sylweddau, sgiliau meddwl, rheoli dicter, ymwybyddiaeth fyfyriol, a therapi sy'n canolbwyntio ar dosturi.

Er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o fonitro iechyd corfforol cleifion, roedd aelod o staff sydd wedi cofrestru'n ddeuol fel nyrs iechyd meddwl a nyrs gyffredinol yn cyflawni swyddogaeth nyrs practis. Roedd y yrs practis yn cael cymorth gan ddau gynorthwyydd. Roedd yr ysbyty hefyd yn defnyddio ymarferwr cyffredinol a oedd yn cynnal clinigau ar gyfer cleifion yn yr ysbyty. Dywedodd staff a chleifion wrthym fod iechyd corfforol cleifion yn flaenoriaeth yn yr ysbyty ac roedd y nyrs practis a'r cynorthwywyr yn rhagweithiol iawn. Byddai deintydd yn ymweld â'r ysbyty bob pythefnos a byddai'r staff yn gwneud apwyntiadau i gleifion mewn achos brys.

Gwnaethom sylwi nad oedd yr offer a ddefnyddir mewn argyfwng bob amser yn gyfredol neu'n gweithio yn rhai o'r clinigau/ystafelloedd triniaeth. Mae'r offer hwn yn hanfodol ar gyfer diogelwch cleifion.

**Cam gofynnol**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl offer a ddefnyddir mewn argyfwng yn gyfredol ac yn gweithio ac, os nad ydynt, dylid cael offer newydd yn eu lle.**

Roedd eiriolwr annibynnol ar gael i roi cymorth i'r cleifion yn Llys Llanarth, a dywedodd y cleifion fod mynediad at y gwasanaeth hwn yn dda. Siaradodd y staff yn ganmoliaethus iawn am y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu i'r cleifion; byddai'r eiriolwr yn cyfarfod â chleifion unigol ar gais ac roedd yn mynychu cyfarfodydd a fforymau cleifion. Roedd cleifion hefyd yn gallu defnyddio'r gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol. Roedd cleifion yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth hwn; roedd cleifion yn gallu cysylltu â'r gwasanaeth eu hunain neu byddai aelodau o staff yn atgyfeirio ar ran y claf.

## Cofnodion staff a hyfforddiant

Yn ystod ein harolygiadau blaenorol, rydym wedi gweld bod ffeiliau staff yn cael eu cynnal yn dda ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol am y broses recriwtio a dewis, gan gynnwys gwiriadau o gymwysterau proffesiynol ble'r oedd angen. Ni wnaethom roi blaenoriaeth i gofnodion staff yn ystod yr arolygiad hwn oherwydd canfyddiadau arolygiadau blaenorol. Cadarnhawyd bod Llys Llanarth yn parhau gyda'r arfer da o adnewyddu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl staff yn rheolaidd. Mae'r arfer hwn yn sicrhau bod yr ysbyty'n cynnal gwiriad annibynnol, sy'n helpu i wella gallu'r sefydliad i asesu uniondeb a chymeriad unigolyn.

Roedd system arfarnu ar waith, a dywedodd rhai staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi derbyn arfarniad o fewn y 12 mis diwethaf.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn derbyn goruchwyliaeth gan y rheolwyr yn fisol, a bod hon yn cael ei chofnodi. Roedd dogfennau'n dangos bod goruchwyliaeth glinigol yn digwydd yn ôl yr angen. Nododd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod yr holl reolwyr ar bob lefel yn yr ysbyty'n hawdd mynd atynt ac yn gefnogol; felly roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n teimlo eu bod yn gallu trafod problemau gydag eraill yn agored ac yn onest.

Roedd rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant gorfodol ar waith ar gyfer yr holl staff. Roedd y darparwr cofrestredig wedi buddsoddi mewn system e-ddysgu, a oedd wedi cael ei rhoi ar waith yn dilyn ein harolygiad blaenorol. Roedd y system newydd yn galluogi'r staff i ddilyn rhai cyrsiau yn eu hamser eu hunain, gan gynnwys eu gwneud gartref os oedd angen. Roedd yr ystadegau a adolygwyd gennym o ran cwblhau hyfforddiant yn dangos bod cyfraddau cydymffurfiaeth hyfforddiant wedi cynyddu ymhellach ers ein harolwg blaenorol a'u bod ar 80% ac yn uwch, gyda'r mwyafrif dros 90%.

**<u>Preifatrwydd ac urddas</u>**

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod eu preifatrwydd a'u hurddas yn cael eu parchu drwy'r holl ysbyty. Dywedodd bron yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y staff wedi eu dangos o gwmpas y ward pan gawsant eu derbyn, a'u bod wedi cael esboniad o’r hyn fyddai'n digwydd. Roedd gan yr holl gleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain, ac roeddent yn gallu cloi'r drysau o'r tu mewn.

Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiad gwelsom fod paneli arsylwi ar ddrysau ystafelloedd gwely cleifion yn cael eu gadael ar agor, gan amharu ar breifatrwydd cleifion. Nid oedd yn amlwg ar bob ward y dylid cadw'r paneli arsylwi ar gau trwy'r amser ac y dylai staff eu hagor i gynnal arsylwadau’n unig ac yna'u cau eto.

**Cam gofynnol**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod paneli arsylwi ar ddrysau ystafelloedd gwely ar gau oni bai bod staff yn cynnal arsylwadau ac nad ydynt yn cael eu gadael ar agor.**

Roedd yr holl gleifion yn gallu defnyddio ffôn talu er mwyn cadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Roedd cleifion yn gallu defnyddio ffonau swyddfa'r ward os oedd angen cysylltu â gweithwyr proffesiynol ynglŷn â'u gofal yn yr ysbyty.

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn gallu cwrdd â'u nyrs enwebedig yn breifat a bod ystafelloedd ar gael hefyd i'r cleifion allu cwrdd â'u teulu a'u ffrindiau'n breifat.

Roedd gan yr ysbyty weithdrefn gwyno ar waith. Gwnaeth adolygiad o'r cwynion amlygu bod y system sydd ar waith yn un gynhwysfawr. Roedd y cofnod cwynion yn cynnwys trosolwg o'r holl gwynion, ac roedd gan yr holl gwynion a adolygwyd gennym lythyrau yn y ffeil yn nodi'r canlyniad.

Gwnaethom adolygu'r broses cwynion anffurfiol a oedd yn cael ei rheoli'n lleol gan y wardiau. Roedd yn amlwg bod y rhain yn cael eu cofnodi a bod cynlluniau gofal yn cael eu diweddaru i adlewyrchu unrhyw gamau gweithredu. Roedd cwynion yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth ac yn cael eu cymeradwyo gan y rheolwr ward perthnasol, y swyddog cwynion, y rheolwr cofrestredig a'r claf. Ble y bo'n addas, roedd cwynion cleifion yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd cleifion a oedd yn cael eu cynnal ar bob ward.

Roedd bwrdd iechyd a chydgysylltydd gofal y claf unigol yn cael copi o unrhyw gwynion ffurfiol a oedd wedi cael eu lleisio ac atebion iddynt.

Roedd taflenni cwynion a llifsiartiau ar gael i gleifion. Gwnaethom nodi bod y posteri Canlyniadau Cwynion yn enghraifft o arfer nodedig. Mae'r swyddog cwynion yn cynhyrchu posteri, ac mae'r rhain yn cael eu harddangos ym mhob ward i dynnu sylw at gwynion cyffredin a'u canlyniadau. O ganlyniad, mae'r holl gleifion yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am faterion yn yr ysbyty sy'n destun pryder i gleifion.

Yn ogystal, roedd nifer o fforymau ar waith er mwyn gallu trafod barn a phryderon y cleifion ac i'w cofnodi. Mae cynrychiolydd cleifion o bob ward yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor Cleifion bob mis. Yn y cyfarfodydd, mae'r cleifion yn cyflwyno materion sy'n benodol i'w ward. Caiff y cyfarfodydd eu cofnodi, ac mae nifer o uwch staff Llys Llanarth yn eu mynychu.

Roedd Pwyllgor Arlwyo ar waith hefyd, lle'r oedd cynrychiolwyr cleifion o bob ward yn trafod pryderon a materion a gasglwyd gan eu cyd-gleifion yn ymwneud â bwyd. Caiff y trafodaethau eu cofnodi, ac mae nifer o staff Llys Llanarth yn mynychu'r cyfarfodydd, yn ogystal â'r eiriolwr.

## **Therapïau a gweithgareddau i gleifion**

Roedd Ysbyty Llys Llanarth wrthi'n rhoi arferion lleiaf cyfyngol ar waith. Roedd rhai o'r rheolwyr wardiau ac aelodau eraill o staff yn gadarnhaol wrth herio rhai o'r rheolau a chyfyngiadau presennol a oedd ar waith ar rai o'r wardiau yn Llys Llanarth. Roedd yn gadarnhaol bod rhai aelodau o staff yn teimlo y dylai cleifion gael eu hasesu’n rheolaidd ar y risgiau unigol o gael mynediad at eitemau a gweithgareddau. Roeddent yn teimlo efallai bod angen cyfyngu ar y rhain oherwydd risgiau ac ymddygiad cleifion, ond roeddent yn teimlo na ddylid cael rheolau cyffredinol ar gyfer rhai eitemau neu weithgareddau fel ffonau symudol neu amser i fynd i'r ardd.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi ar rai wardiau bod rhai arferion cyfyngol a defodol iawn ar waith o hyd nad ydynt yn briodol ar gyfer gofal iechyd meddwl modern. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys gofyniad i drefnu amser ymlaen llaw i wylio rhaglenni yn y lolfa deledu, amseroedd penodedig ar gyfer diodydd poeth, amseroedd penodedig ar gyfer mynd i'r ardd, ac amseroedd penodedig ar gyfer ysmygu.

**Cam gofynnol**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn datblygu dulliau unigoledig ar gyfer rheoli risgiau cleifion a rhoi'r gorau i'r defnydd o brosesau defodol ledled yr ysbyty.**

Roedd rhai wardiau'n defnyddio system Coch, Oren, Gwyrdd gyda chleifion. Byddai cleifion yn cael statws (Coch, Oren neu Wyrdd) yn seiliedig ar eu hymddygiad. Os oedd claf ar statws Coch oherwydd ymddygiad amhriodol, yna byddai cyfyngiadau ar yr eitemau y gallai'r claf eu defnyddio, fel eitemau trydanol, cryno ddisgiau, disgiau DVD ac ati, neu leihad yn yr amseroedd yr oedd yn cael ysmygu.

Nododd nifer o staff a llawer o gleifion nad oeddent yn hoffi'r system Coch, Oren, Gwyrdd, a dywedodd nifer o gleifion fod y system yn teimlo'n blentynnaidd, yn gosbol ac weithiau'n ddiraddiol. Dywedodd nifer o gleifion hefyd eu bod wedi clywed bod y staff yn defnyddio'r statws hwn fel rhybudd i gleifion gan ddweud pethau fel "os wnei di hynna, byddi'n cael dy roi ar statws coch". Nododd nifer o'r staff y gwnaethom siarad â nhw nad oedd y system Coch, Oren, Gwyrdd wedi'i bwriadu i'w defnyddio mewn modd cosbol, ac y dylid dargyfeirio cleifion mewn ffordd barchus os oedd eu hymddygiad yn heriol. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod y rhan fwyaf o gleifion y gwnaethom siarad â nhw'n teimlo ei bod yn system gosbol.

Ledled yr ysbyty, roedd rheolwyr y wardiau wedi mabwysiadu ac addasu'r system Coch, Oren, Gwyrdd, felly roedd yn cael ei defnyddio mewn gwahanol ffyrdd yn dibynnu ar y ward ac nid oedd rhai wardiau'n defnyddio'r system o gwbl. Roedd yn amlwg nad oedd y system Coch, Oren, Gwyrdd yn cael ei defnyddio'n gyson a bod staff y ward yn dehongli'r system mewn gwahanol ffyrdd wrth reoli ymddygiad. Mae angen adolygu'r system Coch, Oren, Gwyrdd i sicrhau bod ymddygiad cleifion yn cael ei reoli'n briodol gan staff yn gyson ledled yr ysbyty ac nad yw arferion y canfyddir iddynt fod yn gosbol yn cael eu defnyddio.

**Cam gofynnol**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r dulliau o reoli ymddygiad cleifion yn yr ysbyty i sicrhau bod ymddygiad cleifion yn cael ei reoli'n briodol gan staff yn gyson ledled yr ysbyty.**

Roedd gan Lys Llanarth amrywiaeth eang o gyfleusterau mewn cyflwr da i hwyluso therapïau a gweithgareddau. Roedd gan bob ward therapydd galwedigaethol enwebedig llawn amser a gweithwyr cymorth therapi. Roedd y staff o'r gwahanol ddisgyblaethau y gwnaethom siarad â nhw'n gadarnhaol iawn am y trefniant hwn ac yn teimlo bod y wardiau'n gallu hwyluso ystod eang o weithgareddau i'r cleifion.

Roedd pob claf a oedd yn cael ei dderbyn i'r ysbyty yn cael ei asesu gan therapydd galwedigaethol. Ar ôl cael asesiad, rhoddwyd amserlen unigol i'r cleifion, a oedd yn cynnwys amryw weithgareddau therapiwtig, yn ogystal â gweithgareddau ar y ward. Roedd amserlenni gweithgareddau cleifion unigol yn cysylltu gydag amserlen cyfleusterau'r ysbyty ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu ac yna'n cael eu newid bob 12 wythnos.

Roedd y cyfleusterau a oedd ar gael oddi ar y wardiau'n cynnwys canolfan arddwriaethol a chrefft, a oedd yn trefnu amryw o weithdai i'r cleifion, megis gwaith coed a mynediad at dai gwydr a gerddi mawr ar gyfer gweithgareddau garddwriaethol. Roedd cleifion a oedd yn gweithio yn y gweithdai wedi adeiladu siop goffi fawr yn yr ardal hon y gallai cleifion ei defnyddio a lle'r oedd detholiad o gleifion yn gweithio. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n gadarnhaol iawn am gyfleusterau'r ganolfan arddwriaethol a chrefft a chyfraniad y cleifion ati. Gwnaeth y cleifion a oedd yn defnyddio'r ganolfan arddwriaethol a chrefft sylwadau cadarnhaol amdani. Dywedodd staff wrthym am y cynlluniau ar gyfer yr ardal yn y dyfodol, a oedd yn cynnwys ardal lle gallai cleifion ddysgu ac ymarfer sgiliau plymio a thrydanol. Gwnaethom argymell bod y darparwr cofrestredig yn bwrw ymlaen i ddatblygu'r syniad hwn fel y gall cleifion ddysgu sgiliau ymarferol y gellid eu defnyddio mewn cyflogaeth yn y dyfodol.

Roedd yr ardal gweithgareddau, y cyfeiriwyd ati fel y "Bloc Stablau", yn cynnwys digon o gyfarpar a champfa a oedd ar agor bob dydd. Roedd pwll nofio a neuadd chwaraeon fawr yn yr ardal hon hefyd ar gyfer gweithgareddau fel pêl-droed pum bob ochr, pêl-fasged a badminton.

Roedd ceginau therapi galwedigaethau unigol ar wardiau Awen, Teilo a Threowen ac roedd dwy gegin therapi galwedigaethol yn y Bloc Stablau ar gyfer Deri, Howell, Iddon ac Osbern. Roedd cyfleusterau da yn y ceginau therapi galwedigaethol i gleifion gymryd rhan mewn sesiynau coginio. Gwnaethom arsylwi ar nifer o gleifion yn cymryd rhan mewn sesiynau coginio a nododd eraill eu bod yn coginio'n rheolaidd.

Roedd cleifion yn gallu defnyddio adnoddau golchi dillad ar y ward er mwyn iddynt gynnal neu ddysgu'r sgiliau ymarferol hyn yn barod i gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Roedd ystafell celf a chrefft a chanolfan addysgol lle gallai cleifion ddysgu sgiliau cyfrifiadur, rhifedd a sgiliau iaith. Er bod cleifion yn cael defnyddio'r ganolfan addysgol i gael mynediad at y rhyngrwyd, dywedwyd wrthym fod hyn am gyfnod byr yn unig ar ddiwedd y sesiwn sgiliau cyfrifiadurol. Mynegodd nifer o gleifion eu dymuniad i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn amlach tra oeddent yn yr ysbyty. Dywedwyd wrthym fod nifer o wardiau'n dechrau rhoi caniatâd i gleifion ddefnyddio'r rhyngrwyd ar y wardiau dan oruchwyliaeth y staff. Fodd bynnag, roedd yr amser ar gyfer hyn yn gyfyngedig iawn. Gwnaethom argymell y dylai'r darparwr cofrestredig ystyried gadael i'r cleifion ddefnyddio'r rhyngrwyd ar y wardiau yn seiliedig ar asesiad risg unigol.

Roedd clwb cymdeithasol yn yr ysbyty hefyd, a oedd wedi ei addurno'n ddeniadol ac a oedd yn cynnwys jiwcbocs, bwrdd tennis bwrdd a bwrdd pŵl, bwrdd dartiau, hoci aer, a thaflunydd ar gyfer ffilmiau. Roedd hefyd yn cynnwys llyfrgell a siop i'r cleifion.

Roedd cleifion a oedd wedi cael absenoldeb trwy ganiatâd hefyd yn gallu defnyddio tir helaeth yr ysbyty i fynd am dro ac mae nifer o gleifion yn pysgota'n rheolaidd mewn llyn ar dir yr ysbyty.

Roedd gan bob un o'r saith ward ei cherbyd penodedig ei hun er mwyn i gleifion allu mynd i'r gymuned pan oedd ganddynt absenoldeb trwy ganiatâd. Byddai un o gerbydau'r wardiau'n cael ei ddefnyddio fel cerbyd argyfwng yr ysbyty ar un diwrnod yr wythnos rhag ofn bod angen i glaf adael yr ysbyty'n annisgwyl, e.e. ar gyfer apwyntiad meddygol brys. Ar y diwrnod pan nad oedd cerbyd ar y ward, byddai staff y ward yn hwyluso grŵp trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn i gleifion ddefnyddio'r cyfle hwn fel rhan o'u hadsefydlu.

Gwelsom fod cleifion ar y wardiau'n gwneud celf a chrefft, yn chwarae gemau bwrdd a gemau cyfrifiadur, yn darllen llyfrau a phapurau newydd, yn gwneud modelau, yn chwarae cardiau, ac yn gwylio teledu.

## <u>Bwyd a maeth</u>

Roedd lle ar bob ward i gleifion fynd i wneud eu diodydd poeth ac oer eu hunain ac roedd cegin i gleifion ar ward Woodlands. Roedd y cleifion yn defnyddio'r ardaloedd hyn yn rheolaidd, cymaint nes eu bod yn anniben gyda diodydd wedi colli a staeniau ar wyneb yr unedau. Nodwyd ar nifer o wardiau hefyd bod y tu fewn i'r unedau cegin o dan y man gwneud diodydd yn fudr. Er mai cyfrifoldeb y cleifion oedd glanhau unrhyw ddiodydd oedd wedi colli yn y mannau hyn, roedd yn amlwg bod rhai staeniau wedi bod yno am amser hir. Mae angen i staff lanhau'r mannau hyn yn rheolaidd trwy gydol y dydd i sicrhau eu bod yn lân ac yn daclus.

**Cam gofynnol**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y man gwneud diodydd poeth ac oer yn cael ei gadw'n lân.**

Roedd cleifion yn Llys Llanarth yn derbyn pedwar pryd bwyd y dydd, gan gynnwys brecwast a weinir o 8.30 a.m., cinio am 12.30 p.m., pryd gyda'r nos am 5 p.m. a swper yn hwyrach. Mae'r staff arlwyo'n paratoi ac yn gweini hyd at 400 o brydau bwyd y dydd, a goruchwyliwyd y gwaith hwn gan y rheolwr arlwyo a'r prif gogydd. Roedd yr holl fwyd yn cael ei baratoi a'i goginio yn y brif gegin, ac roedd dwy o'r wardiau'n cael eu gwasanaethu ohoni. Roedd y wardiau eraill yn cael eu gwasanaethu gan chwe chegin ddibynnol, ac roedd y bwyd yn cael ei anfon atynt o'r brif gegin gan ddefnyddio trolïau arlwyo.

Roedd y bwydlenni'n newid bob pedair wythnos ac, wrth eu hadolygu, gwelsom eu bod yn rhoi amrywiaeth o opsiynau prydau a byrbrydau i gleifion. Roedd y fwydlen yn amrywio ychydig trwy'r flwyddyn gyda fersiwn ar gyfer yr haf a'r gaeaf. Dywedodd y staff wrthym fod darpariaeth ar gyfer cleifion â diet penodol/arbennig, gan gynnwys dietau figan, Hari Krishna, anoddefiad i glwten, a halal. Roedd nifer o gleifion yn yr ysbyty gydag anghenion diabetig neu a oedd angen diet meddal. Bydd y prif gogydd yn cyfarfod â chleifion sy'n cael problemau gyda'u diet a thrafod pa opsiynau addas sydd ar gael.

Roedd yr opsiynau ar gyfer cinio'n cynnwys: baguettes neu frechdanau gyda dewis o dri llenwad, dewis cinio iach, ¼ cyw iâr rhost, taten bob gyda dewis o bedwar llenwad, prif ginio a chinio llysieuol.

Roedd un pryd nos ar y fwydlen ac roedd yn cael ei ddarparu gyda phwdin. Fodd bynnag, yn aml iawn roedd y dewis ar gyfer pryd nos i lysieuwyr yr un fath â'r prif ddewis ond gyda rhywbeth yn lle cig; nid oedd hyn yn rhoi dewis i gleifion o bryd nos ar wahân i gael y fersiwn cig neu lysieuol.

Gwnaethom nodi hefyd, er bod ystod o ddewisiadau ar y cyfan, bod opsiynau prydau'n debyg iawn neu'n cael eu hailadrodd yn aml. Er enghraifft, y dewis ar gyfer cinio 'iach' bob dydd oedd 'plât ffrwythau ffres a chnau' a'r prif ddewis a'r dewis llysieuol ar gyfer cinio bob dydd Sadwrn oedd 'brecinio'. Bob nos Wener y pryd fyddai 'cig oer a salad' neu'r dewis llysieuol 'caws bwthyn a phinafal a salad'.

Roedd adborth gan y cleifion ynghylch y bwyd yn gymysg; roedd rhai cleifion yn gadarnhaol ac eraill nad oeddent mor gadarnhaol. Gwnaeth nifer o gleifion sylwadau ar natur ailadroddus y dewis o brydau. Mae angen i'r darparwr cofrestredig ystyried hyn, yn arbennig gan y bydd y rhan fwyaf o gleifion yn derbyn gofal yn Llys Llanarth am gyfnod hir, gyda rhai cleifion yn aros am nifer o flynyddoedd.

**Cam gofynnol**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r ddarpariaeth arlwyo i sicrhau bod digon o ddewis i gleifion, yn arbennig ar gyfer dewisiadau prydau nos a chinio iach.**

Darperid digon o ffrwythau ffres i bob ward i'r cleifion eu bwyta, ac roedd diodydd a byrbrydau ar gael y tu allan i amseroedd bwyd. Roedd y cleifion yn gallu prynu a storio eu bwyd eu hunain. Roedd y wardiau'n cynnal noson pryd parod unwaith bob pythefnos i'r cleifion hynny oedd am ddewis yr opsiwn hwn.

Gwnaethom nodi ar rai wardiau nad oedd yr ystafelloedd bwyta'n ddigon mawr i'r holl gleifion fod yn yr ystafell ar yr un pryd. Esboniodd y staff a chleifion y byddai dau eisteddiad ar gyfer y wardiau hyn, ond nid oedd gan y cleifion na'r staff y gwnaethom siarad â nhw unrhyw bryderon am y trefniadau hyn.

## *Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl*

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol naw o'r cleifion a gadwyd ac a oedd yn derbyn gofal yn Llys Llanarth ar adeg ein harolygiad. Nodwyd y materion nodedig canlynol:

- Roedd gan y ffeiliau a adolygwyd gennym daflen fynegai ar y blaen a oedd yn ei wneud yn hawdd dod o hyd i bethau.
- Safon uchel o ran cadw cofnodion Deddf Iechyd Meddwl.
- Rhestr wirio derbyn yn y ffeiliau Deddf Iechyd Meddwl.
- Roedd papurau trosglwyddo ysbyty yn gywir.
- Roedd absenoldeb Adran 17 ar gyfrifiadur, ac roedd wedi'i adolygu fel rhan o gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth, gyda chyfraniad y cleifion wedi'i gofnodi fel rhan o'r broses.
- Roedd copïau o dystysgrifau cydsynio i driniaeth, CO2 a CO3, ar gael ar wardiau gyda'r siartiau meddyginiaeth.
- Roedd dogfennau a gohebiaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn hawdd eu cyrchu lle'r oedd angen hynny.

## *Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl*

Roedd y systemau cofnodion cleifion ar gyfrifiadur yn Llys Llanarth yn ddatblygedig iawn ac yn darparu gwybodaeth o ansawdd uchel am ofal cleifion unigol. Roedd y staff o bob disgyblaeth wedi ymgysylltu'n dda iawn â'r system 'Nodiadau Gofal' a oedd yn cael ei defnyddio.

Roedd y system PathNav yn gynhwysfawr, yn hygyrch ac yn canolbwyntio ar y claf ac roedd y wybodaeth oedd yn cael ei mewnosod a'i chadw ar y system hon yn canolbwyntio ar goliau. Roedd y system yn rhoi cleifion wrth galon eu triniaeth. Roedd cleifion yn cael eu hannog i weithio gyda'r nyrs enwebedig i leisio'u barn ar y system PathNav. Anogwyd cleifion hefyd i ymgysylltu â PathNav yn ystod rowndiau ward eu tîm amlddisgyblaeth.

Gwnaethom adolygu dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth ar gyfer 13 o gleifion a oedd yn derbyn gofal yn Llys Llanarth.

- Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth yn rhoi sylw i ddimensiynau bywyd fel y nodir ym Mesur Iechyd Meddwl 2010.
- Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn nodi'r cynllun triniaeth yn glir, a'r amcanion a'r canlyniadau i'w cyflawni.
- Dogfennau cynhwysfawr a manwl mewn perthynas â risgiau cleifion a sut i'w rheoli.
- Asesu, monitro a chofnodi iechyd corfforol yn fanwl iawn.
- Roedd PathNav yn darparu llwybr manwl ar gyfer y claf gyda thargedau ar gyfer trosglwyddiadau ward trwy'r ysbyty a/neu ar gyfer cael eu rhyddhau i leoliadau eraill neu i'r gymuned. Roedd hyn yn rhoi arwydd clir o'r goliau yr oedd angen i'r cleifion eu cyflawni er mwyn cael eu rhyddhau.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r darparwr cofrestredig gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y gwasanaeth anabledd dysgu yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y gwasanaeth mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei werthuso ac yna'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

*Atodiad A*

**Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu:** **Cynllun Gwella**

**Darparwr:** **Partnerships in Care**

**Ysbyty:** **Llys Llanarth**

**Dyddiadau'r arolygiad:** **1 – 5 Awst 2016**

| Rheoliad | Yr hyn y mae angen ei wella | Camau i'w cymryd gan y darparwr cofrestredig | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Angen Sicrwydd Ar Unwaith** | | | |
| 26 (2) b Addasrwydd y lleoliad | Adroddiad o Gyflwr Gosodiadau Trydanol a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2016 gan Allianz Engineering Inspection Services Ltd. Mae adroddiad y contractwr yn nodi bod nifer o feysydd yn anfoddhaol. Gwnaethom nodi bod angen camau gweithredu o hyd i atgyweirio'r diffygion a nodwyd yn yr adroddiad hwn o gyflwr gosodiadau trydanol. Mae angen unioni'r rhain ar unwaith oherwydd y risg i ddiogelwch cleifion, staff ac ymwelwyr yn Ysbyty | Mae gwaith mewn perthynas â chyflwr gosodiadau trydanol o fewn y Plasty wedi cael ei gymeradwyo gan y cyfarwyddwr cyllid ar 8 Awst 2016.<br><br>Mae'r adran ystadau wedi dechrau ar gynllun gwaith i gyflawni'r camau gweithredu angenrheidiol. Oherwydd natur y gwaith, bydd angen diffodd y prif gyflenwad trydan a bydd hyn yn digwydd dros benwythnosau er mwyn amharu ar | Rheolwr Cofrestredig<br><br>Rheolwr Ystadau | 30/09/16 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Llys Llanarth. | weithrediadau cyn lleied â phosibl. | | |
| 26 (4) (d) Addasrwydd y lleoliad | Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cwblhau i fodloni'r safonau gofynnol a chyngor gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru. | Bydd ymarferion tân yn cael eu cwblhau yn unol â'r rheoliadau a chyngor gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru. | Rheolwr Cofrestredig<br><br>Rheolwr Ystadau | 30/09/16 |
| 26 (2) (b) Addasrwydd y lleoliad | Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob cais cynnal a chadw a all effeithio ar ddiogelwch yn cael sylw ar unwaith. | Mae'r tîm ystadau'n cael ei hysbysu am yr holl broblemau cynnal a chadw'n ddyddiol ac mae unrhyw bryderon/oedi'n cael eu huwchgyfeirio at y rheolwr cofrestredig. | Rheolwr Cofrestredig<br><br>Rheolwr Ystadau | 30/09/16 |
| 26 (2) (b) Addasrwydd y lleoliad | Rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau bod y nenfwd sy'n gollwng mewn ardal gymunedol o ward Howell wedi cael ei drwsio. | Mae'r nenfwd a oedd yn gollwng wedi cael ei drwsio gan y tîm ystadau. Bydd angen i gontractwr allanol gwblhau gwaith ar y to allanol er mwyn atgyweiriad parhaus. | Rheolwr Cofrestredig<br><br>Rheolwr Ystadau | 31/10/16 |
| 26 (2) (b) Addasrwydd y lleoliad | Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei wirio'n rheolaidd a sicrhau bod dodrefn sydd wedi eu difrodi'n cael sylw ar unwaith. | Cwblheir archwiliadau o'r amgylchedd gan reolwr y ward bob mis. Mae'r gwaith o atgyweirio neu amnewid dodrefn yn cael ei drafod | Rheolwyr y Wardiau<br><br>Adran Cadw Tŷ | 30/09/16 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gyda'r adran cadw tŷ er mwyn iddo weithredu'n briodol. | | |
| 26 (2) (b) Addasrwydd y lleoliad<br><br>15 (7) (a) (b) Ansawdd y driniaeth a darpariaeth gwasanaethau eraill | Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gel glanhau dwylo ar gael trwy'r amser yn y peiriannau darparu penodedig. | Bydd yr adran cadw tŷ yn gwirio'r peiriannau darparu bob dydd ac yn rhoi mwy o gel ynddynt yn ôl yr angen. | Adran Cadw Tŷ | 01/09/16 |
| 9 (1) (g) Polisïau a gweithdrefnau | Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod proses ar waith i sicrhau bod gwybodaeth gyfredol i gleifion ac ymwelwyr yn cael ei chynnal a'i harddangos yn gyson trwy safle'r ysbyty. | Bydd y rheolwr cofrestredig yn adolygu hysbysfyrddau wardiau a'r wybodaeth a gaiff ei harddangos gyda rheolwyr y wardiau ac yn sicrhau cysondeb ar draws y safle. | Rheolwr Cofrestredig<br><br>Rheolwyr y Wardiau | 30/09/16 |
| 15 (1) (a-c) Ansawdd y driniaeth a darpariaeth | Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr ystafelloedd gofal dwys yn cael eu defnyddio yn y modd lleiaf cyfyngol posibl ar draws | Mae cynlluniau gofal unigol yn cael eu datblygu ar gyfer cleifion sy'n adlewyrchu gofal/triniaeth a gofynion risg yn ystod cyfnodau o | Timau Amlddisgyblaeth | 30/09/16 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gwasanaethau eraill | yr ysbyty a bod cyfyngiadau'n seiliedig ar risgiau'r claf unigol. | gymorth ychwanegol mewn ystafelloedd gofal dwys. Bydd timau amlddisgyblaeth yn sicrhau bod y rhain yn adlewyrchu arferion lleiaf cyfyngol. | | |
| 15 (1) (a-c) Ansawdd y driniaeth a darpariaeth gwasanaethau eraill | Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cynllun arfaethedig ar gyfer ymyriad corfforol yn cael ei nodi o fewn cynllun gofal y claf. | Bydd y cynllun ymyriad corfforol yn cael ei ddangos mewn datganiad uwch yn y cynllun gofal. | Timau Amlddisgyblaeth | 30/09/16 |
| 15 (1) (a-c) Ansawdd y driniaeth a darpariaeth gwasanaethau eraill | Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn nodi eu trafodaethau, neu ymdrechion i drafod â chlaf, gan gynnwys barn y claf ar unrhyw ymyriadau corfforol yn y dyfodol. | Bydd y cynlluniau uchod yn cynnwys ac yn dangos tystiolaeth o farn y cleifion. | Timau Amlddisgyblaeth | 30/09/16 |
| 23 (2) (b) Cofnodion | Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff y ward yn meddu ar y dogfennau gofynnol sydd ar gael er mwyn iddynt fod yn | Cyn derbyn claf, bydd pob ward yn sicrhau bod ffolder derbyn claf newydd ar gael ar y ward yn cynnwys yr holl wybodaeth | Nyrs Arwain<br><br>Rheolwr y Ward | 01/09/16 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gyfarwydd â chleifion sy'n cael eu derbyn i'r ward. | berthnasol er mwyn i aelodau'r tîm amlddisgyblaeth allu ymgyfarwyddo ag anghenion y claf newydd. | | |
| 18 (1) (a) Preifatrwydd, urddas a chydberthnasau | Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob chwiliad claf yn cael ei gynnal mewn man preifat. | Bydd yr ysbyty'n sicrhau bod pob chwiliad claf yn cael ei gynnal mewn ystafell/man preifat. | Rheolwr Cofrestredig<br><br>Rheolwr y Ward | 01/09/16 |
| 15 (2) Ansawdd y driniaeth a darpariaeth gwasanaethau eraill | Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl offer a ddefnyddir mewn argyfwng yn gyfredol ac yn gweithio ac, os nad ydynt, dylid cael offer newydd yn eu lle. | Mae nyrs gymwys yn cwblhau gwiriadau o’r clinigau bob dydd ac yn wythnosol. Mae rheolwr y ward yn goruchwylio'r broses hon a bydd yn sicrhau bod yr holl offer a ddefnyddir mewn argyfwng yn gyfredol ac yn gweithio a bod offer newydd yn cael eu prynu yn eu lle yn ôl yr angen. | Rheolwr y Ward | 01/09/16 |
| 18 (1) (a) Preifatrwydd, urddas a chydberthnasau | Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod paneli arsylwi ar ddrysau ystafelloedd gwely ar gau oni bai bod staff yn cynnal arsylwadau ac nad ydynt yn cael eu gadael ar agor. | Bydd timau clinigol y wardiau'n sicrhau bod paneli arsylwi yn cael eu cadw ar gau.<br><br>Bydd y nyrs ddiogelwch enwebedig yn gwirio hyn fel rhan o'i | Rheolwr y Ward<br><br>Nyrs Ddiogelwch | 01/09/16 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | dyletswyddau. | | |
| 15 (1) (a) (c) Ansawdd y driniaeth a darpariaeth gwasanaethau eraill | Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn datblygu dulliau unigol ar gyfer rheoli risgiau cleifion a rhoi'r gorau i'r defnydd o brosesau defodol ledled yr ysbyty. | Mae fframwaith Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yn cael ei gyflwyno i Lys Llanarth o fis Hydref 2016.<br><br>Darperir hyfforddiant gan hyfforddwr allanol wedi'i gydgysylltu gan ein harweinwyr seicoleg a bydd yn cymryd sawl mis i ymgorffori'r fframwaith newydd yn ein triniaethau. | Arweinwyr Seicoleg | 28/02/17 |
| 15 (1) (a) (c) Ansawdd y driniaeth a darpariaeth gwasanaethau eraill | Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r dulliau o reoli ymddygiad cleifion yn yr ysbyty i sicrhau bod ymddygiad cleifion yn cael ei reoli'n briodol gan staff yn gyson ledled yr ysbyty. | Fel uchod, bydd Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yn rhoi fframwaith cyson i'n gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion cleifion. | Arweinwyr Seicoleg<br><br>Timau Amlddisgyblaeth y Wardiau | 28/02/17 |
| 26 (2) (a) Addasrwydd y lleoliad | Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y man gwneud diodydd poeth ac oer yn cael ei gadw'n lân. | Bydd rheolwyr y ward yn sicrhau bod y man gwneud diodydd poeth ac oer yn cael ei gadw'n lân. | Rheolwyr y Wardiau | 30/08/16 |
| 15 (9) (b) Ansawdd y | Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r ddarpariaeth arlwyo i | Mae'r fwydlen yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd gan grŵp cleifion ar | Grŵp Cleifion | 30/09/16 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| driniaeth a darpariaeth gwasanaethau eraill | sicrhau bod digon o ddewis i gleifion, yn arbennig ar gyfer dewisiadau prydau nos a chinio iach. | draws yr ysbyty i sicrhau bod dewisiadau'n seiliedig ar y claf.<br><br>Bydd y Pwyllgor Arlwyo'n parhau i adolygu adborth yn fisol ac yn gwneud newidiadau fel y bo'n briodol. | Rheolwr Arlwyo | |
| **Argymhellion** | | **Camau i'w cymryd gan y darparwr cofrestredig** | **Swyddog cyfrifol** | **Amserlen** |
| Mae'r darparwr cofrestredig yn ymchwilio'r opsiwn o osod peiriant arian parod yn Ysbyty Llys Llanarth. | | Bydd y rheolwr cofrestredig yn adolygu opsiwn o osod peiriant arian parod gyda'r cyfarwyddwr cyllid. | Rheolwr Cofrestredig<br><br>Cyfarwyddwr Cyllid | 01/12/16 |
| Dylai'r darparwr cofrestredig fwrw ymlaen i ddatblygu sgiliau plymio a thrydanol er mwyn i gleifion ddysgu sgiliau cyflogaeth ymarferol. | | Bydd y cydgysylltydd sgiliau ymarferol cleifion yn adolygu opsiynau a phosibiliadau ac yn rhoi adborth i'r arweinydd therapi galwedigaethol. | Arweinydd Therapi Galwedigaethol | 01/12/16 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried caniatáu i'r cleifion gael mwy o fynediad at y rhyngrwyd ar y wardiau yn seiliedig ar risgiau cleifion unigol. | Caiff hyn ei ymchwilio fel rhan o'n Gweithgor Lleiaf Cyfyngol. | Arweinydd Diogelwch<br><br>Uwch Dîm Rheoli | 01/12/16 |